

# CYNLLUN TREF AC ARDAL RHUTHUN

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD’

2013 – 2020

wedi ei ddiweddarw Ionawr 2015



CYNLLUN  
TREF  
RHUTHUN

“EDRYCH YMLAEN  
GYDA’N GILYDD”

2012 – 2020

# Gweledigaeth ar gyfer Rhuthun

Rydym eisiau i Ruthun

- fod yn 'dref am oes'
- fod yn dref farchnad ganoloesol ffyniannus
- fod yn brofiad saith niwrnod yr wythnos
- fod yn dref Wikipedia

Rydym eisiau i Ruthun fod yn 'dref am oes' - man lle mae pobl yn mwynhau byw ac yn dymuno parhau i fyw, gweithio a magu eu teuluoedd eu hunain yno, i fod yn dref farchnad ganoloesol ffyniannus gydag economi leol ac ymwelwyr fywiog gan ei helpu i fod yn 'dref am oes' ac yn lle deniadol i ymwelwyr, i fod yn brofiad saith niwrnod yr wythnos lle mae'r hyn y mae'r gymuned leol ei angen wrth fyw a gweithio yn Rhuthun ar gael iddynt drwy'r wythnos a lle mae gweithgareddau ar gael i ymwelwyr gymryd rhan ynddynt, gydag adloniant ar gael, llefydd o ddiddordeb i ymweld â nhw a llety a bwytai, bariau a chaffis i ddewis ohonynt trwy gydol eu harhosiad, a bod yn dref Wikipedia er mwyn annog ymwelwyr i ddod i aros yn Rhuthun a'r cylch, gan hyrwyddo ei hanes a'i hatyniadau gan roi rhesymau i ymweld ac aros.

Mae gan Ruthun lawer o gryfderau gan ei fod yn llawn hanes a threftadaeth, wedi'i hamgylchynu gan gefn gwlad prydferth ac mae ganddi fannau o ddiddordeb ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr. Mae'n darparu addysg dda ar gyfer ein cymuned iau ac mae ganddi sawl tîm chwaraeon da. Fodd bynnag, mae rŵan angen i ni fanteisio ar hyn a phenderfynu beth yn union sydd gan Ruthun i'w gynnig a sut i symud ymlaen â hynny.

## Cefndir

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn "gyngor sy'n perfformio'n dda yn nes at y gymuned".

I helpu cyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor Sir yn gwahodd y cyngorau tref a chymuned a'r busnesau, y gymuned a'r sectorau gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi a'r cymunedau llai cyfagos sy'n gysylltiedig â nhw i ymuno â'i gilydd i ddatblygu "cynlluniau tref". Bydd y rhain yn ddogfennau byw a fydd yn amlinellu

- Y sefyllfa bresennol
- Y prif heriau a chyfleoedd y byddant yn eu hwynebu dros y degawd nesaf
- Gweledigaeth ar gyfer pob tref a fydd yn rhoi dyfodol cynaliadwy iddynt, a
- Camau gweithredu realistig a chyraeddadwy a fydd yn cyflawni'r weledigaeth



Daw'r enw Rhuthun o'r hen eiriau Cymraeg 'rhudd' (coch) a 'din' (caer) ac mae'n cyfeirio at liw'r tywodfaen coch sy'n sail ddaearegol i'r ardal a dyma'r garreg a ddefnyddiwyd i adeiladu'r castell fel gwylfa strategol dros yr Afon Clwyd ym 1277 hyd nes 1284.

Mae hanes bywiog a diddorol i dref Rhuthun - sydd wedi creu treftadaeth bensaernïol gyfoethog ac mae oddeutu 230 o adeiladau rhestredig yn ardal Rhuthun, gyda mwyafrif o'r rheiny yn y dref ei hun.

Ar hyn o bryd mae'r dref yn ganolfan weinyddol a gwasanaeth i'r ardal wledig gyfagos. Mae'n gartref i bencadlys Cyngor Sir Ddinbych, sy'n dod â sgil effaith fuddiol i ddiwydiannau manwerthu a gwasanaeth yn y dref, ac mae bellach yn gartref i un o farchnadoedd gwerthu gwartheg a defaid mwyaf Cymru. Mae'r dref hefyd yn gartref i Ganolfan Grefftau Rhuthun a ailddatblygwyd yn ddiweddar mewn cynllun gwerth £4.3 miliwn i fod yn Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol, gyda 3 oriel, chwe stiwdio i artistiaid, oriel arwerthu, gweithdai addysg a phreswyl a chaffi. Mae'r orielau'n denu artistiaid byd enwog i arddangos yno.


Gwasanaethir y dref a'r ardal o'i chwmpas gan nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Ysgol Brynhyfryd yn ysgol gymysg ddwyieithog ac mae Ruthin School yn ysgol breifat, gymysg i fyfyrwyr dydd a phreswyl sy'n agored i ymgeiswyr o bob cwr o'r byd. Mae gan bobl Rhuthun a'r ardal gyfagos hefyd fynediad i ysbyty cymunedol, canolfan hamdden, theatr gymunedol a choleg addysg bellach yn Llysfasi (sydd bellach yn rhan o Goleg Glannau Dyfrdwy) sy'n rhoi mynediad i gyrsiau addysg alwedigaethol ac addysg uwch ar gyfer rhai sy'n gadael yr ysgol a myfyrwyr dros 19 oed.

Yn ystod yr haf, mae'r Gŵyl Rhuthun yn cynnig rhaglen wythnos o hyd o ddigwyddiadau a chyngherddau ac mae'r dref yn cynnal y digwyddiad beicio mynydd MTB Marathon gyda chystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen yn Rhuthun ar ôl beicio drwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd.

Mae'r dref yn gartref i 5,218 o bobl ac mae 11,639 o bobl yn byw yn yr ardal wledig o'i hamgylch yn wardiau Llandyrnog, Llanbedr Dyffryn Clwyd/ Llangynhafal, Llanarmon yn Iâl/ Llandegla, Llanfair Dyffryn Clwyd/ Gwyddelwern, Efenechtyd a Llanrhaeadr yng Nghinmeirch.

Scale: 1:25,000

### Map yn dangos y wardiau yn Ardal Rhuthun



## Ble'r ydym ni arni

### Pobl

O'i chymharu â'r sir gyfan mae gan dref Rhuthun

- fwy o bobl 65 oed neu hŷn,
- canran uwch o bobl dros 85 oed,
- llai o bobl ifanc dan 15 oed,
- llai o aelwydydd sy'n hawlio budd-dal tai neu Dreth y Cyngor, a
- cyfran is o aelwydydd sy'n orlawn

### Cymuned

O'i chymharu â'r sir gyfan, mae mwy o bobl yn nhref Rhuthun

- wedi'u geni yng Nghymru, ac yn
- yn gallu siarad Cymraeg

Mae'r raddfa troseddu yn Rhuthun yn is na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer y Sir, yn enwedig o ran digwyddiadau o drais yn erbyn unigolion, dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn a difrod troseddol.


Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fformiwla i fesur amddifadedd o'r enw "Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru". Rhannwyd Cymru'n 1896 o ardaloedd sy'n llai na wardiau'r Cyngor Sir. Yna caiff pob ardal eu graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf difreintiedig a sgôr o 1896 i'r lleiaf difreintiedig. Nid oes modd cymharu'r sgoriau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser, ond maent fodd bynnag yn rhoi awgrym o farn Llywodraeth Cymru ynglŷn ag amddifadedd yn y dref ar wahanol adegau. Mae holl ardaloedd tref Rhuthun ymhlith y 30% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae rhan o'r mynegai'n ymwneud â pha mor hawdd yw hi i bobl gael mynediad i wasanaethau fel ysgolion, clinigau, siopau a chanolfannau hamdden ac yn yr ardal wledig o amgylch y dref, ystyrir fod wardiau Efenechdyd, Llanarmon yn Iâl/ Llandegla, Llanfair Dyffryn Clwyd/ Gwyddelwern a Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn hyn o beth gyda wardiau Llanbedr Dyffryn Clwyd/ Llangynhafal a Llandyrnog ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig.



Scale: 1:20,000

## Map yn dangos Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn Rhuthun



## Swyddi

O'i chymharu â'r sir gyfan,

- mae mwy o bobl sy'n byw yn Rhuthun yn gweithio yn y sector cyhoeddus (ac mae mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn gweithio yn y sector hon nac mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall ym Mhrydain Fawr),
- mae canran is o bobl yn gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu, manwerthu a gwestai a bwytai
- mae canran uwch o bobl sy'n byw yn Rhuthun yn rheolwyr a gweithwyr proffesiynol
- mae mwy o drigolion y dref yn cymudo dros 20km i'r gwaith
- mae mwy o bobl yn cymudo dros 20km i'r gwaith yn y dref, ac
- mae canran is o bobl oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.
- mae incwm blynyddol cyfartalog fesul aelwyd yn Rhuthun ychydig yn uwch er bod canran yr aelwydydd yn Rhuthun islaw 60% o ganolrif Prydain hefyd yn uwch

## Lle

### Cyfraddau lleoedd gwag ar gyfer eiddo manwerthu – Hydref 2013

Mae gan Ruthun un o'r canrannau uchaf o unedau canol tref gwag yn y sir, er fod hyn ar y cyfan yn debyg i'r lefel cyfartalog ar gyfer y DU.

Rhuthun	7.8%	(14 uned)
Y DU	13.9%	(Local Data Company)

Y Cyngor Sir sy'n rhedeg prif asedau twristiaeth y dref - sef Canolfan Grefftau Rhuthun (gyda chymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru), Nantclwyd y Dre a Charchar Rhuthun. Mae'r Ganolfan Grefftau'n denu tua 90,000 o ymwelwyr drwy ei ddrysau bob blwyddyn, tra bod Carchar Rhuthun yn denu tua 10,000 a Nantclwyd y Dre yn denu tua 4,000.

Mae 165 o welyau wedi'u graddio mewn llety gwyliau yn y dref.

## Yr hyn rydym eisiau ei wneud a sut fyddwn ni'n gwneud hynny

### Pobl

Mae gallu i ddarparu dewis ehangach o addysg uwch.

Mae mwy o bobl yn dod i fyw yn Rhuthun yn natblygiad preswyl Glasdir.

Mae'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi'i lleoli ar safle anaddas.

Mae cyfran uwch o bobl dros 85 oed yn Rhuthun. Rhagwelir y bydd y grŵp oedran hwn yn cynyddu fel cyfran o'r boblogaeth, gan greu rhagor o alw am wasanaethau lleol a chyfleoedd i fusnesau lleol a'r economi leol.

Mae llai o bobl ifanc yn byw yn Rhuthun.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

..... Byddwn yn cysylltu â Thîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant CSDd i drafod y sgiliau sydd eu hangen yn yr ardal, y cyrsiau a allai a/ neu y dylai'r colegau eu cynnig i helpu pobl ifanc aros a gweithio yn yr ardal a fydd yn ei dro'n helpu denu cyflogwyr newydd i'r ardal gan fod y sail sgiliau cywir ar gael. Byddwn hefyd yn adolygu darpariaeth ysgolion cynradd Rhuthun a chymunedau cyfagos a chytuno ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Bydd angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n addas ar gyfer y boblogaeth leol, a bod anghenion tai yn cael eu diwallu.

<i>Byddwn yn cyflawni hyn drwy</i>	<i>Dan arweiniad</i>	<i>Pryd fydd hyn yn dechrau ac yn gorffen</i>
Cwblhau adolygiad ardal o ddarpariaeth gynradd bresennol a chytuno ar batrwm darparu a gwaith gwella ar gyfer y dyfodol	Moderneiddio Addysg y Cyngor Sir	1 Ebrill 2012 31 Maw 2017
Gwella darpariaeth addysg gynradd i wasanaethu Rhuthun a chymunedau cyfagos drwy sicrhau arian i fuddsoddi mewn ysgolion	Moderneiddio Addysg y Cyngor Sir	1 Ebrill 2013 31 Maw 2017
Ystyried darparu rhagor o dai gofal ychwanegol ar gyfer	Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012

pobl hŷn		31 Maw 2017
Cynnal trafodaethau ynglŷn â chael caffis a siopau i agor ar adegau pan all bobl yn eu harddegau hŷn eu defnyddio ac edrych ar y posibilrwydd o gynnig gweithgareddau ar gyfer eu grŵp oedran	Adfywio Strategol y Cyngor Sir, y Cyngor Tref, Grwpiau Busnes	1 Ebr 2012 31 Maw 2013
Cysylltu â'r Gwasanaethau Tai i nodi unrhyw ddarpariaeth a allai fod ar goll ar gyfer pobl ifanc / tai fforddiadwy	Adran Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2013

## Cymuned

Mae nifer o dimau chwaraeon llwyddiannus yn Rhuthun; rygbi, pêl-droed, criced, tennis a hoci gyda llawer o'r aelodau yn dod o'r tu allan i'r dref. Felly, bydd angen i ddarpariaeth hamdden awyr agored fod yn gynaliadwy.

Bydd cae chwarae pob tywydd yn cael ei adeiladu yn Rhuthun yn Ysgol Brynhafryd.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

..... Byddwn yn dod â chwaraeon at ei gilydd fel rhan o frandio ar gyfer Rhuthun i ddod â'r gymuned at ei gilydd a chaniatáu i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd. Bydd hyn yn caniatáu i Ruthun fod 'yn lle i ddod i chwarae a chystadlu', gan annog timau chwaraeon o'r tu allan i'r dref i ddod i Ruthun, a fydd yn ei dro'n dod â budd economaidd. Bydd yn golygu bod angen i ni sicrhau bod y cyfleusterau hamdden o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy.

<i>Byddwn yn cyflawni hyn drwy</i>	<i>Dan arweiniad</i>	<i>Pryd fydd hyn yn dechrau ac yn gorffen</i>
Darparu cludiant cyhoeddus mwy hyblyg i bobl sy'n byw mewn cymunedau anghysbell i'w gwneud yn haws iddynt gael mynediad i gyfleusterau yn y dref, h.y. mewn pryd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Canfod dulliau o ddod â theuluoedd at ei gilydd drwy chwaraeon	Tîm y Dref	1 Ebr 2013 31 Maw 2014

## Swyddi

Mae siopau lleol yn cystadlu'n uniongyrchol â siopa ar y we a chanolfannau siopa tu allan i dref.

Mae Rhuthun yn gwasanaethu'r ardal wledig gyfagos gyda marchnad da byw a gwasanaethau proffesiynol.

Mae nifer fawr o ymwelwyr yn mynd i'r Ganolfan Grefftau, ond nid ydynt yn mynd i ganol y dref.

Mae economi'r nos yn gyfyngedig yn Rhuthun.

Mae siopau Rhuthun yn cynnig nifer o frandiau adnabyddus, o ansawdd uchel. Mae darpariaeth hamdden newydd â brand gan Wetherspoons wedi agor yn ddiweddar yn y dref.

Mae'r tir cyflogaeth sydd ar gael yn barod i adeiladu arno yn gyfyngedig a gallai hyn gyfyngu ar dwf busnesau presennol a buddsoddiad newydd ar y stad ddiwydiannol.

Cynhelir digwyddiad beicio mynydd cenedlaethol yn yr ardal (sy'n dechrau ac yn gorffen yn Rhuthun) ac mae cyfleoedd beicio ffordd a cherdded yn yr ardal gyfagos a allai helpu cynnal twristiaeth fel rhan o'r ddarpariaeth ehangach i ymwelwyr.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

..... Bydd angen i ni gefnogi perchnogion busnesau lleol i benderfynu sut allwn ni annog pobl i siopa'n lleol ac nid ar y we neu'r tu allan i'r dref. Mae'n rhaid bod rhywbeth ynglŷn â'r hyn mae siopwyr yn ei brofi/ derbyn yn lleol sy'n eu hannog i siopa yng nghanol eu tref ac nid ar lein, neu'r tu allan i'r dref. Mae'n gynyddol bwysig i berchnogion siopau weithio gyda'i gilydd. Mae angen i ni ystyried yr effaith y bydd unrhyw newid i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn ei gael ar ffermwyr yn yr ardal gyfagos.

<i>Byddwn yn cyflawni hyn drwy</i>	<i>Dan arweiniad</i>	<i>Pryd fydd hyn yn dechrau ac yn gorffen</i>
Edrych ar y posibilrwydd o gael rheolwr canol y dref	Tîm Tref Rhuthun, Adfywio Strategol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Gosod Llwybr Celf i wella darpariaeth celf yn y dref a hefyd i annog ymwelwyr â'r Ganolfan Grefftau i fynd i ganol y dref	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Darparu arwyddion i roi gwybod am ganol y dref i ymwelwyr	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012

â'r Ganolfan Grefftau		31 Maw 2014
Sicrhau dyfodol y penwythnos Drysau Agored	Adfywio Strategol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2013
Adolygu sefyllfa darpariaeth Rhuthun i ymwelwyr gan gynnwys asedau fel y castell canoloesol er mwyn cael mwy o gydnabyddiaeth i Ruthun fel canolfan ar gyfer y celfyddydau cymhwysol	Adfywio Strategol y Cyngor Sir gyda Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Annog cyfeirio rhwng siopau	Tîm y Dref	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Datblygu rhan o strategaeth farchnata a brandio Rhuthun gan ddefnyddio'r ffaith bod llawer o frandiau o ansawdd uchel ar gael ar werth yn Rhuthun - brandio canol y dref fel 'siop adrannol'	Adfywio Strategol y Cyngor Sir, Cefnogi Busnes a Twristiaeth, Tîm y Dref	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Deall unrhyw newidiadau a wneir i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r effaith bosibl	Adfywio Strategol a Cefnogi Busnes y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2013



## Lle

Nid yw Sgwâr San Pedr yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

Mae gan Ruthun rôl allweddol o ran darpariaeth ehangach Dyffryn Clwyd a'r AHNE i ymwelwyr.

Mae prosiect Llwybrau Diogel yn y Gymuned yn cael ei gynnal yn Rhuthun.

Cyflwynwyd cais llwyddiannus am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn adfer Gardd yr Arglwydd yn Nantclwyd y Dre.

Comisiynwyd astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer adnewyddu Adain Orllewinol Nantclwyd y Dre.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

..... Bydd angen i ni wella sgwâr y dref trwy edrych ar ei osodiad a llif thraffig. Mae angen i ni ddod o hyd i arian i adfer ac adnewyddu rhan olaf Nantclwyd Y Dre i ehangu ei apêl fel atyniad i ymwelwyr. Mae angen i ni sicrhau bod y mannau o ddiddordeb ar agor a bod gweithgareddau'n digwydd yn y dref saith niwrnod yr wythnos er mwyn gwneud Rhuthun yn lle mwy bywiog sy'n ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda Thîm Tref Rhuthun a grwpiau busnes a chymunedol i sicrhau dull cydlynol. Byddwn yn parhau ac yn datblygu ymhellach gwaith a wnaed eisoes gan Bro Rhuthun i farchnata a brandio Rhuthun a phenderfynu beth sydd gan Ruthun i'w 'gynnig' i ymwelwyr sy'n dod i Ruthun yn unig ac fel rhan o becyn cyrchfan Dyffryn Clwyd.

<i>Byddwn yn cyflawni hyn drwy</i>	<i>Dan arweiniad</i>	<i>Pryd fydd hyn yn dechrau ac yn gorffen</i>
Cynnal archwiliad llawn ar arwyddion	Priffyrdd ac Adfywio Strategol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Adolygu darpariaeth gwybodaeth i ymwelwyr	Adfywio Strategol y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Gwella arwyddion yng Ngharchar Rhuthun	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Gwneud arwyddion parcio 'preswylwyr yn unig' ar Stryd y Farchnad yn fwy amlwg i ymwelwyr	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2013


		<b>Cyflwynwyd Cyfarwyddyd</b>
Darparu byrddau ychwanegol ar gyfer llwybr y dref	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 Ebr 2012 31 Maw 2013
Sicrhau arian i adnewyddu Adain Orllewinol Nantclwyd y Dre	Adfywio Strategol y Cyngor Sir	1 Ebr 2013 31 Maw 2014
Darparu meinciau o arddull cyson yn ac o amgylch canol y dref a mwy o finiau ar lwybr troed Cunning Green	Y Cyngor Tref	1 Ebr 2013 31 Maw 2017
Cael gwared â ac/neu ailosod baneri ar bolion goleuadau stryd	Y Cyngor Sir Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Gosod pont fwy deniadol yn lle'r bont bresennol yng Nghae Ddôl	Cyfeillion Cae Ddôl	1 Ebr 2013 31 Maw 2017
Edrych ar ffyrdd o gyllido'r gwaith o gael gwared â'r gylchfan ar Sgwâr Sant Pedr ac /neu ad-drefnu'r gofod i'w wneud yn fwy addas ar gyfer digwyddiadau.	Y Cyngor Sir Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio	1 Ebr 2012 31 Maw 2014
Datblygu strategaeth farchnata a brandio ar gyfer Rhuthun ymhellach a'i chyhoeddi	Adfywio Strategol y Cyngor Sir, Cefnogi Busnes a Twristiaeth, Tîm y Dref	1 Ebr 2012 31 Maw 2014

# Y cysylltiad rhwng y dref a chymunedau cysylltiedig

Mae cyswllt agos rhwng Rhuthun a'r cymunedau o'i chwmpas gyda chanol tref Rhuthun yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o bentrefi'r ardal. Mae'r ardal o amgylch Rhuthun yn fawr ac mae iddi sawl nodwedd bwysig. Mae nifer o'r cymunedau wedi eu lleoli yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig. Mae Llwybr Clawdd Offa hefyd yn mynd drwy rai o'r cymunedau hyn. Parc Gwledig Loggerheads yw'r atyniad mwyaf yn ardal Rhuthun ac mae'n boblogaidd gyda thrigolion lleol ac ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal.

Mae'r ardal yn dod yn gynyddol boblogaidd ar gyfer digwyddiadau uchel eu proffil o safon uchel fel digwyddiad beicio Etape Cymru, digwyddiad beicio mynydd a seiclo MTB, a rali Cymru Prydain. Mae'r ardal yn cynnig cyfoeth o weithgareddau awyr agored fel cerdded, marchogaeth ceffylau, beicio, cyfeiriannu yn ogystal â chyfluoedd addysgol fel gwobrau Dug Caeredin.

Mae sawl cyngor a grŵp cymunedol egniol yn yr ardal, pob un yn gweithio tuag at les eu cymunedau a'u heconomiâu lleol. Rhai o'r cymunedau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ardal hwn yw Bontuchel, Cyffylliog, Rhewl, Llanynys, Llangynhafal, Gellifor, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanferres, Maeshafn, Eryrys, Llanarmon yn lâl, Llandegla, Llanfair Dyffryn Clwyd, Graigfechan, Pentrecelyn, Pwllglas, Clocaenog, Derwen a Bryn Saith Marchog.





# CYNLLUN ARDAL RHUTHUN

“EDYCH YMLAEN GYDA’N  
GILYDD”

2013 – 2020

Gwneud iddo ddigwydd...  
Ar gyfer Pobl a'r Gymuned

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCHEL. ECON.	CANLYNIAD	DAN ARWEINIAD	DECHRAU	GORFFEN
Gwella mynediad band eang a derbyniad ffonau symudol i'r ardal wledig o amgylch Rhuthun	1.2a	Band Eang Cyflym iawn i bob eiddo	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ionawr 2014	Rhagfyr 2017
Cefnogi'r Cyngor Cymuned ar brosiect Gardd Gymunedol Llanferres	5.2c.	Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanferres	Ionawr 2014	Meh 2014
		Gwneud gwaith ar yr ardd	Cyngor Cymuned Llanferres	Gorff 2014	Gorff 2015
		Sefydlu cytundeb cynnal a chadw ar gyfer yr ysgol	Cyngor Cymuned Llanferres	Gorff 2015	Hydref 2015
Cefnogi Siop Pwllglas a reolir yn wirfoddol i helpu cynnal y gymuned leol y mae'n gwasanaethu	5.2c.	Nodi anghenion y gymuned drwy gwrdd â'r sefydliad a reolir yn wirfoddol ac aelodau ward lleol	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Canolfan a reolir yn wirfoddol yn cynnal y prosiect	Grŵp Gwirfoddol	Ionawr 2015	Rhagfyr 2015
Cefnogi Siop Bentref Llanarmon yn lân a reolir yn wirfoddol i helpu cynnal y gymuned leol y mae'n gwasanaethu	5.2c.	Nodi anghenion y gymuned drwy gwrdd â'r sefydliad a reolir yn wirfoddol ac aelodau ward lleol	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Canolfan a reolir yn wirfoddol yn cynnal y prosiect	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ionawr 2015	Rhagfyr 2015
Cefnogi Siop Clawddnewydd a	5.2c.	Nodi anghenion y gymuned drwy	Datblygu Economaidd a Busnes	Ebrill 2014	Meh 2014

reolir yn wirfoddol i helpu cynnal y gymuned leol y mae'n gwasanaethu		gwrdd â'r sefydliad a reolir yn wirfoddol ac aelodau ward lleol	Cyngor Sir Ddinbych		
		Adroddiad / Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Canolfan a reolir yn wirfoddol yn cynnal y prosiect	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ionawr 2015	Rhagfyr 2015
Cefnogi'r Raven Inn, Llanarmon yn Iâl a reolir yn wirfoddol i helpu cynnal y gymuned leol y mae'n gwasanaethu	5.2c.	Nodi anghenion y gymuned drwy gwrdd â'r sefydliad a reolir yn wirfoddol ac aelodau ward lleol	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Canolfan a reolir yn wirfoddol yn cynnal y prosiect	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ionawr 2015	Rhagfyr 2015
Cyfuno'r siop a'r dafarn gymunedol yng Nghlawddnewydd	5.2c.	Nodi'r gofynion i gyfuno'r siop gymunedol a'r dafarn	Cyngor Cymuned Derwen	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Derwen	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Y siop a'r dafarn gymunedol yn darparu gwasanaethau lleol	Cyngor Cymuned Derwen	Ionawr 2015	Rhagfyr 2015
Cefnogi cymunedau gwledig heb ganolfannau a reolir yn wirfoddol i fod yn fwy cynaliadwy	5.2c.	Gweithio gyda chymunedau eraill a'r aelod ward lleol i benderfynu a fyddai canolfannau a reolir yn wirfoddol e.e. siopau pentref yn fuddiol	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Agor y ganolfan wirfoddol newydd	Grŵp Gwirfoddol	Ebrill 2014	Meh 2014
Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu er mwyn gwneud gwelliannau i Neuadd Bentref Llanbedr DC	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned	Cyngor Cymuned Llanbedr	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanbedr	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanbedr	Medi 2014	Rhagfyr 2014

Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu er mwyn gwneud gwelliannau i Neuadd Bentref Llangynhafal	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r gwelliannau	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu er mwyn gwneud gwelliannau i Neuadd Bentref Llanfair DC	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned i nodi gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i ehangu canolfan gymunedol Clawddnewydd	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned i nodi gwelliannau	Cyngor Cymuned Derwen	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Derwen	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r gwelliannau	Cyngor Cymuned Derwen	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i ehangu canolfan gymunedol Pwllglas	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned i nodi gwelliannau	Cyngor Cymuned Efenechtyd	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Efenechtyd	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r estyniad	Cyngor Cymuned Efenechtyd	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Gweithio gyda'r aelod ward lleol a'r cyngor cymuned i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu er mwyn gwella cyfleusterau ym Mhafiliwn Rhewl	5.2c.	Cyfarfod â'r aelod ward a'r cyngor cymuned i nodi gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanynys	Ebrill 2014	Meh 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanynys	Gorff 2014	Medi 2014
		Cwblhau'r gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanynys	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Adeiladu parc sglefrio ar gae chwarae Llanarmon yn lâl	5.2c.	Clustnodi safle	Cyngor Cymuned Llanarmon yn lâl	Ebrill 2014	Meh 2014
		Caniatâd angenrheidiol	Cyngor Cymuned Llanarmon yn lâl	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanarmon yn lâl	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Adeiladu'r parc sglefrio	Cyngor Cymuned Llanarmon yn lâl	Ebrill 2014	Meh 2014
Datblygu cynllun tai	5.2c.	Datblygu dwy uned o dai	Tai Cymunedol CSDd/ Landlord	Ebrill 2013	Maw 2016

fforddiadwy yn Llanferres ar gyfer pobl leol		fforddiadwy	Cymdeithasol Cofrestredig Lleol		
Ystyried darparu mwy o dai fforddiadwy i helpu cynnal y boblogaeth leol yn enwedig ar gyfer teuluoedd ifanc	5.2c.	Adroddiad / Achos Busnes	Tai Cymunedol CSDd	Ebrill 2014	Maw 2015
		Nodi a sicrhau arian	Tai Cymunedol CSDd	I'w gadarnhau – Yn dibynnu ar ganlyniad yr achos busnes	I'w gadarnhau
		Darparu tai fforddiadwy (yn amodol ar achos busnes).	Tai Cymunedol CSDd	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Cefnogi Cyngor Cymuned Llandegla i brynu tir yn y pentref oddi wrth CSDd i greu gofod agored cymunedol yn y pentref	5.2c.	Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llandegla	Ebrill 2014	Meh 2014
		Prynu'r tir	Cyngor Cymuned Llandegla	Gorff 2014	Medi 2014
		Creu'r gofod agored	Cyngor Cymuned Llandegla	Medi 2014	Rhagfyr 2014
Gwella diogelwch trigolion yn Llanbedr DC drwy ddarparu llwybrau cerdded mwy diogel o ran uchaf i ran isaf y pentref a drwy'r pentref i'r ysgol		Nodi llwybrau cerdded	Priffyrdd CSDd	Ionawr 2014	Mawrth 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Priffyrdd CSDd	Meh 2014	Gorff 2014
		Nodi a sicrhau arian	Priffyrdd CSDd	Gorff 2014	Hydref 2014
		Gosod llwybrau cerdded	Priffyrdd CSDd	Tachwedd 2014	Chwef 2015
Datblygu cynllun ymatebwyr cyntaf yn ardal Llangynhafal	5.2c.	Nodi sgiliau a hyfforddiant drwy gwrdd â'r aelod ward lleol ac / neu gyngor / grŵp cymunedol	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi darparwr hyfforddiant	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Medi 2014	Hydref 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Hydref 2014	Ionawr 2015
		Darparu'r hyfforddiant	Cyngor Cymuned Llangynhafal	Chwef 2015	Maw 2015
Darparu adnodd ac/neu weithwyr ieuenctid i annog datblygiad cymunedol a threfnu digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys	5.2c.	Nodwyd ardaloedd lle mae hyn yn flaenoriaeth	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Gorff 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Medi 2014	Hydref 2014
		Nodi a sicrhau arian	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Hydref 2014	Ion 2015



darparu pot o nawdd y gall pobl ifanc ymgeisio iddo		Gweithwyr ieuenctid ac/neu raglen ddatblygu a phot o arian yn eu lle	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Chwef 2015	Mawrth 2015
Rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau lleol		Nodi dulliau o gynnwys pobl ifanc mewn cynghorau tref a chymuned	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Gorff 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Medi 2014	Hydref 2014
		Nodi a sicrhau arian (os bydd angen)	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Hydref 2014	Ion 2015
		Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau lleol	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Chwef 2015	Mawrth 2015
Darparu manau chwarae gwledig gwell, mwy diogel	5.2c	Achos Busnes ac astudiaeth ymarferoldeb	Parth Cyhoeddus CSDd	Ebrill 2014	Meh 2014
		Cynnal astudiaeth ymarferoldeb	Parth Cyhoeddus CSDd	Gorff 2014	Medi 2014
		Achos busnes i osod manau chwarae newydd / disodli (yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth ymarferoldeb)	Parth Cyhoeddus CSDd	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Nodi a sicrhau arian	Parth Cyhoeddus CSDd	Ion 2015	Mawrth 2015
		Gwella / gosod y lleoedd chwarae	Parth Cyhoeddus CSDd	Mawrth 2015	Gorff 2015
Uwchraddio cyfleusterau chwarae Llanynys / Rhewl ac ystyried uwchraddio'r cyrtiau tennis i gynnwys MUGA yn lle hynny	5.2c	Nodi gwelliannau	Cyngor Cymuned Llanynys	Ebrill 2014	Mai 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanynys	Meh 2014	Awst 2014
		Cwblhau'r uwchraddio	Cyngor Cymuned Llanynys	Medi 2014	Tach 2014
Darparu lle chwarae newydd yn Llanbedr Dyffryn Clwyd	5.2c	Nodi safle ar gyfer lle chwarae yn Llanbedr Dyffryn Clwyd	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Ebrill 2014	Meh 2014
		Sicrhau'r caniatâd angenrheidiol	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Medi 2014	Rhagfyr 2014
		Adeiladu'r lle chwarae	Cyngor Cymuned Llanfair DC	Ion 2015	Mawrth 2015
Darparu lle chwarae newydd yng Nghyffylliog	5.2c	Nodwyd safle ar gyfer cae chwarae yng Nghyffylliog	Cyngor Cymuned Cyffylliog	Ebrill 2014	Meh 2014
		Sicrhawyd y caniatâd angenrheidiol i sefydlu cae chwarae	Cyngor Cymuned Cyffylliog	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Cyffylliog	Medi 2014	Rhag 2014

		Cae chwarae ar agor	Cyngor Cymuned Cyffylliog	Ion 2015	Maw 2015
Darparu lle chwarae newydd yng Nghlawddnewydd	5.2c	Nodi safle ar gyfer lle chwarae yng Nghlawddnewydd	Cyngor Cymuned Derwen	Ebrill 2014	Meh 2014
		Sicrhau'r caniatâd angenrheidiol i sefydlu cae chwarae	Cyngor Cymuned Derwen	Meh 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Derwen	Medi 2014	Rhag 2014
		Lle chwarae ar agor	Cyngor Cymuned Derwen	Ion 2015	Maw 2015
Sicrhau llwybrau cerdded wedi'u harwyddo a'u mapio'n dda	6.2a	Achos Busnes ar gyfer astudiaeth ymarferoldeb	Hawliau Tramwy CSDd	Ebrill 2014	Mai 2014
		Cynhaliwyd astudiaeth ymarferoldeb	Hawliau Tramwy CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Achos busnes (yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth ymarferoldeb)	Hawliau Tramwy CSDd	Hydref 2014	Tach 2014
		Nodi a sicrhau arian	Hawliau Tramwy CSDd	Rhag 2014	Maw 2015
		Gwella / agor llwybrau cerdded	Hawliau Tramwy CSDd	Meh 2015	Rhag 2015
Cefnogi'r clwb ieuenctid yn Llanynys / Rhewl	5.2c	Nodi anghenion drwy gyfarfod â gweithwyr ieuenctid a'r aelod ward lleol	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Medi 2014	Hydref 2014
		Nodi a sicrhau arian	Gwasanaeth Ieuenctid CSDd	Hyd 2014	Ion 2015
		Cyflwyno'r prosiect(au)	Clwb Ieuenctid	Chwef 2015	Maw 2015
Gosod mainc ar bont yr afon yn Llanynys i wella'r ddarpariaeth leol i gerddwyr ac ymwelwyr	6.2a	Sicrhau'r caniatâd angenrheidiol	Cyngor Cymuned Llanynys	Medi 2014	Hydref 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Cymuned Llanynys	Hydref 2014	Ion 2015
		Gosod y fainc	Cyngor Cymuned Llanynys	Chwef 2015	Maw 2015
Sicrhau bod y rhwydwaith addysg yn ardal Rhuthun yn cynnwys cymysgedd cynaliadwy o ddarpariaeth drefol a gwledig	5.2c	Bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer ysgol ardal ar gyfer ardal Clocaenog / Cyffylliog	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd	Meh 2013	Medi 2014
		Bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer darpariaeth ffydd gynradd gadarn a chynaliadwy i wasanaethu tref Rhuthun a'r cyffiniau	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd	Meh 2013	Medi 2014

		Bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg CSDd	Meh 2013	Medi 2014
Gwella'r lle parcio yn ysgol Gellifor	5.2c	Adroddiad / Achos Busnes	Addysg CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Addysg CSDd	Medi 2014	Tach 2014
		Prynu'r tir	Addysg CSDd	Rhag 2014	Maw 2015
		Mae llefydd parcio ychwanegol ar gael.	Addysg CSDd	Ebrill 2015	Meh 2015
Sicrhau bod y cysylltiadau cludiant i ac o Ruthun yn briodol ar gyfer anghenion cymunedau anghysbell	1.1c.	Achos Busnes ar gyfer astudiaeth ymarferoldeb	Traffig a Chludiant CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Cynnal astudiaeth ymarferoldeb	Traffig a Chludiant CSDd	Medi 2014	Rhag 2014
		Adroddiad / Achos Busnes (os yw'r astudiaeth ymarferoldeb yn nodi anghenion ychwanegol)	Traffig a Chludiant CSDd	Ion 2015	Chwef 2015
		Nodi a sicrhau arian	Traffig a Chludiant CSDd	Maw 2015	Meh 2015
		Addaswyd / gwellwyd y gwasanaeth cludiant	Traffig a Chludiant CSDd	Meh 2015	Gorff 2015
Cefnogi menter dan arweiniad yr eglwys ym Mhlwyf Llanelidan i fod yn ganolbwynt i gymuned lle nad oes unrhyw wasanaethau lleol	5.2c	Nodwyd manylion y prosiect	Cyngor Plwyf Llanelidan	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian	Cyngor Plwyf Llanelidan	Medi 2014	Rhag 2014
		Prosiect yn cael ei gyflwyno	Cyngor Plwyf Llanelidan	Ion 2015	Rhag 2015
Darparu cludiant am ddim neu â chymhorthdal i ddigwyddiadau a gynhelir yn lleol neu yng nghanol y dref i bobl na allai gyrraedd yno fel arall - pobl hŷn, pobl ifanc, teuluoedd	5.2c	Adroddiad / Achos busnes	Traffig a Chludiant CSDd	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Traffig a Chludiant CSDd	Medi 2014	Rhag 2014
		Darparu'r cludiant	Traffig a Chludiant CSDd	Ion 2015	Rhag 2015
Helpu cymunedau i sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol yn defnyddio adeiladau cymunedol lleol yn enwedig ar gyfer pobl hŷn, teuluoedd ifanc a phobl sy'n byw mewn mannau anghysbell	5.2c	Nodi'r anghenion	Aelod ward lleol, cyngorau cymuned, gweithwyr ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol	Gorff 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Cyngorau Cymuned	Medi 2014	Rhag 2014
		Rhaglen o ddigwyddiadau ar waith	Cyngorau Cymuned	Ion 2015	Rhag 2015

## Gwneud iddo ddigwydd...

### Ar gyfer swyddi

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCHEL. ECON.	CANLYNIAD	DAN ARWEINIAD	DECHRAU	GORFFEN
Gwella mynediad band eang a derbyniad ffonau symudol i'r ardal wledig o amgylch Rhuthun	1.2a	Band Eang Cyflym iawn i bob eiddo	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ion 2014	Rhagfyr 2017
Datblygu mentrau i gefnogi a datblygu'r diwydiant cartref o ddefnyddio uwch dechnoleg i weithio gartref yn yr ardal wledig	2.2d	Nodi nifer y gweithwyr yn yr ardal	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Gorff 2014
		Penderfynu pa mor dda y gallant weithio o bell yn yr ardal hon / pwy a ble mae angen iddynt fod a chysylltiad ag o	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Hyd 2014
		Nodi ffyrdd ymlaen - defnyddio hyn i hyrwyddo'r ardal ar gyfer buddsoddi gan unigolion a busnesau	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Tach 2014	Chwef 2015
Datblygu mentrau i gefnogi economïau gwledig eraill i ddarparu gwasanaethau lleol	2.2a.	Adroddiad / Achos Busnes ar gyfer digwyddiad peilot rhwydweithio busnes gwledig	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ion 2014	Maw 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Cynnal digwyddiad rhwydwaith busnes gwledig ac adrodd ar y manteision	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Awst 2015
Archwilio datblygiad mentrau cymdeithasol i gyflogi pobl leol a chynnig gwasanaethau i alluogi pobl i gymryd rhan mewn gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth		Nodi anghenion pobl leol a rhwystrau i gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli ee. crèche / anghenion gwarchod plant, cludiant	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Medi 2014

		Nodi a sicrhau arian.	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Hyd 2014	Chwef 2015
		Prosiectau peilot ar waith	Menter/ Mentrau Cymdeithasol	Maw 2015	Maw 2016
Cefnogi twristiaeth a busnesau eraill drwy ddatblygu teithiau tywys - gan gysylltu cymunedau, busnesau, ysgolion, eglwysi ac ati	3.1Aa.	Nodi llwybr gydag aelodau lleol a / neu gynghorau cymuned	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Ion 2014	Chwef 2014
		Nodi elfennau gwerth ychwanegol – e.e. defnyddio codau QR, bocsys gwrth-ddŵr i ddarparu gwybodaeth, syniadau a sylwadau gan ddefnyddwyr. Ystyried defnyddio artistiaid lleol.	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Ion 2014	Chwef 2014
		Adroddiad / Achos busnes	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Ion 2014	Chwef 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Cefn Gwlad CSDd	Chwef 2014	Ebrill 2014
		Astudiaeth o'r llwybr, holwyd Hawliau Tramwy a nodwyd arwyddbyst, giatau, camfeydd newydd / disodli hen rai	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Ebrill 2014	Mai 2014
		Gosod arwyddbyst a dodrefn newydd ac agor y llwybr yn ôl yr angen	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Meh 2014	Awst 2014
		Cynhyrchu a chymeradwyo testunau, mapiau, lluniau	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Meh 2014	Awst 2014
		Argraffu taflenni ac agor y llwybr cerdded	Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd	Meh 2014	Medi 2014
Cynorthwyo gyda marchnata, hybu a datblygu twristiaeth yn yr ardaloedd gwledig	6.1a	Nodi'r hyn sydd ar goll yn yr ymgyrch farchnata a hyrwyddo bresennol, gan gynnwys arwyddion brown a llwybrau golygfaol	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd	Ebrill 2014	Meh 2014
		Adroddiad / Achos busnes	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd	Medi 2014	Tach 2014

		Nodi rhaglen waith i'r dyfodol	Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu CSDd	Rhag 2014	Chwef 2014
Adfer yr hen foc toiledau yn Llanelidan i'w defnyddio gan ymwelwyr	5.2c	Adroddiad / Achos busnes	Gwasanaethau Amgylcheddol CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Dyluniad wedi'i gostio	Gwasanaethau Amgylcheddol CSDd	Medi 2014	Tach 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Gwasanaethau Amgylcheddol CSDd	Rhag 2014	Chwef 2014
		Adfer y toiledau a'u hagor	Gwasanaethau Amgylcheddol CSDd	Meh 2014	Medi 2014
Datblygu mentrau neu ddarparu cymhellion i fusnesau sy'n sefydlu yn yr ardal wledig - cymhorthdal rhent, tai cost isel gydag uned fusnes fach ynghlwm ac ati	5.2a	Achos Busnes	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ebrill 2014	Meh 2014
		Astudiaeth ymarferoldeb	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Rhag 2014
		Menter / cymhellion ar waith	Datblygu Economaidd a Busnes Cyngor Sir Ddinbych	Ion 2015	Rhag 2015
Caniatáu pobl ifanc i gael swyddi a cholegau gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn haws ac am brisiau fforddiadwy i ganiatáu iddynt barhau i fyw yn yr ardal wledig	4.2f	Nodwyd rhwystrau - ee cardiau adnabod i brofi oedran, prisiau fforddiadwy i bobl ifanc sy'n teithio i'r gwaith ac i'r coleg, cardiau disgownt	Cludiant Teithwyr CSDd	Meh 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Cludiant Teithwyr CSDd	Medi 2014	Tach 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Cludiant Teithwyr CSDd	Rhag 2014	Maw 2015
		Mynediad a fforddiadwyedd ar waith	Cludiant Teithwyr CSDd	Ebrill 2015	Meh 2015

## Gwneud iddo ddigwydd...

### Ar gyfer y lle

GWEITHGAREDD	CYF. STRAT. UCHEL. ECON.	CANLYNIAD	DAN ARWEINIAD	DECHRAU	GORFFEN
Gwella'r isadeiledd gwledig		Nodi llwybrau blaenoriaeth gydag aelodau ward	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos busnes	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Tach 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Rhag 2014	Ion 2015
		Cwblhau'r gwelliannau	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Ionawr 2015	Maw 2015
Gosod cynllun tawelu traffig ar y ffordd o Ddinbych i Ruthun i leihau cyflymder y traffig yn Llanynys / Rhewl		Adroddiad / Achos busnes	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Meh 2014	Medi 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Medi 2014	Tach 2014
		Cyflwyno cynllun tawelu traffig	Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych	Rhag 2014	Ionawr 2015
Helpu mynd i'r afael â materion cynnal a chadw yn y cymunedau gwledig e.e. cynnal iard eglwys		Nodi materion yn Llanelidan	Cyngor Cymuned Llanelidan	Meh 2014	Medi 2014
		Adroddiad / Achos Busnes	Cyngor Cymuned Llanelidan	Medi 2014	Tach 2014
		Nodi a sicrhau arian.	Cyngor Cymuned Llanelidan, Datblygu Economaidd a Busnes CSDd	Rhag 2014	Maw 2015
		Rhaglen gynnal a chadw ar waith yn Neuadd Eglwys Llanelidan	Cyngor Cymuned Llanelidan	Ebrill 2015	Maw 2016

## Blaenoriaethau ar gyfer yr Ardal Wledig

Rhodddwyd blaenoriaeth i dri phrosiect yn yr ardal wledig:

### 1. Gwelliannau i Neuadd Bentref Llanbedr

Gwaith – gwelliannau i'r gegin, ystafell gotiau, y fynedfa a'r neuadd  
Amcan o'r Gost Llawn - £18,400  
Y Swm y Gofynnir Amdano - £8,400

### 2. Gwelliannau i Gae Chwarae Llanarmon yn Iâl

Gwaith – parc sglefrio, cae pêl-droed 5 bob ochr, lle ymarfer pêl-fasged  
Amcan o'r Gost Llawn - £97,000  
Y Swm y Gofynnir Amdano - £24,250

### 3. Prosiect Menter ar y Cyd Clawddnewydd

Gwaith – adnewyddu'r gegin a'r bar, dymchwel y toiledau ac ailadeiladu cyfleuster siop newydd, adnewyddu'r seler a chreu ardal i'r plant a darpariaeth chwaraeon teledu, adnewyddu'r hen uned siop yn unedau busnes bach  
Amcan o'r Gost Llawn - £128,000  
Y Swm y Gofynnir Amdano - £40,000

**DS.** Mae'r prosiectau hyn yn amodol ar gadarnhau fod yr arian cyfatebol wedi'i ddiogelu



## Atodiad Ystadegol

Canran o....	Yn nhref Rhuthun	Yn Sir Ddinbych	Yn yr Ardal wledig gyfagos
Pobl ifanc 15 oed neu iau	18.3	18.1	17.6
Yr holl bobl 65 oed neu hŷn,	21.9	21.1	21
Bobl 85 oed neu hŷn	3.9	2.8	2.3
Pobl yn hawlio budd-dal tai neu Dreth y Cyngor	6.8	7.3	4.3
Aelwydydd gorlawn	2.0	4.5	0.9
Pobl a anwyd yng Nghymru	67.8	58.1	59.0
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	32.3	27.0	43.0
Trigolion mewn gwaith sy'n rheolwyr neu'n weithwyr proffesiynol	10.0	9.9	12.5
Trigolion mewn gwaith a gyflogir yn y sector cyhoeddus	36.1	35.7	34.1
	1.9	2.3	7.9
Trigolion mewn gwaith a gyflogir mewn gwestai a bwytai	8.6	6.9	5.2
Trigolion mewn gwaith a gyflogir mewn gweithgynhyrchu	8.3	9.1	9.0
Trigolion mewn gwaith a gyflogir mewn manwerthu	13.1	14.4	10.7

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011

Ardal wledig dan sylw: Llangynhafal, Gellifor, Llanbedr Dyffryn Clwyd,, Llanferres, Maeshafn, Llanarmon yn lâl, Llandegla, Pentre Celyn, Graigfechan, Llanfair Dyffryn Clwyd, Efenechtyd, Pwllglas, Rhydymedwy, Llanelidan, Gwyddelwern, Betws Gwerfil Goch, Melin y Wig, Derwen, Bryn Saith Marchog, Clawddnewydd, Clocaenog, Cyffylliog, Rhewl a Llanynys

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

"Ardal Gynnyrch Ehangach Is"	2005	2008	2011
<b>Tref</b>			
Rhuthun 1	1148	1187	1316
Rhuthun 2	1632	1694	1669
Rhuthun 3	1847	1859	1863
<b>Yr ardal wledig gyfagos</b>			
Efenechtyd	1431	1497	1482
Llanarmon yn lâl/Llandegla	1539	1622	1642
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1627	1653	1686
Llandyrnog	1428	1301	1384
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1541	1431	1435
Llanrhaeadr yng Nghinmeirch	1359	1300	1422

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd cywir?

Bydd y Cyngor Sir ynghyd â'r Cyngor Cymuned yn cynnal adolygiadau cynnydd blynyddol. Bydd diweddariadau mwy rheolaidd yn cael ei darparu i Grwpiau Ardal yr Aelodau y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref, a hefyd i'r gymuned ehangach drwy Lais y Sir a drwy ddatganiadau i'r wasg a wneir gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Cynllun yn cael ei drin fel dogfen weithredol lle gellir ychwanegu neu ddileu dyheadau yn ôl newidiadau i'r amgylchiadau.

## Pwy gyfrannodd at gynhyrchu'r cynllun hwn?

Cynhyrchwyd y cynllun hwn gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau gyda Chynghorwyr Sir a gwasanaethau, aelodau ward, cynghorau cymuned, busnesau, ysgolion a'r gymuned ehangach.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

[datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk)